

IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2023

Yn Cynghorydd Michael (Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Kaaba, Driscoll a/ac Ferguson-Thorne

1 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU HURIO PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a gafwyd bod gyrrwr wedi ceisio codi ffi ormodol ar deithiwr a gwrthod defnyddio'r mesurydd tacsî.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yr achwynydd. Rhoddodd yr achwynydd fanylion am yr hyn a ddigwyddodd ar y noson dan sylw. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y teithiwr wedi darparu'r cyrchfan a dywedodd y gyrrwr y byddai'r ffi yn £10 am fod prisiau tanwydd yn uchel. Roedd y teithiwr yn anghyfforddus ac roedd yn ymwybodol y dylid defnyddio'r mesurydd tacsî ar gyfer pob taith. Gofynnodd i'r gyrrwr stopio'r cerbyd ac ar yr adeg honno dechreuodd y gyrrwr y mesurydd. Dywedodd yr achwynydd fod angen iddo fod yn bendant a'i fod yn pryderu y byddai teithwyr eraill yn cael eu hysbysu pe byddent yn cael eu rhoi yn yr un sefyllfa.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi egluro wrth y teithiwr y byddai'r pris oddeutu £10. Gwadodd wrthod defnyddio'r mesurydd tacsî ac ymddiheurodd am unrhyw gamddealltwriaeth.

Holodd yr aelodau'r ddau barti er mwyn egluro'r dilyniant o ddigwyddiadau.

PENDERFYNWYD – Bod y drwydded Cerbyd Hacni / Hurio Preifat y gyrrwr yn cael ei hatal am 7 diwrnod am wrthod defnyddio'r mesurydd tacsî.

(2) Achos 2

Wedi'i ohirio am fis

(3) Achos 3

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gyrrwr wedi cael 6 phwynt cosb am yrru heb yswiriant. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau disgyblu.

Anerchwyd yr Is-bwyllgor gan gynrychiolydd cyfreithiol y gyrrwr. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y gyrrwr yn cydnabod bod hyn yn drosedd ddifrifol. Roedd y gyrrwr yn gyrru cerbyd preifat adeg y drosedd. Nid oedd yn ymwybodol bod ei bolisi yswiriant wedi'i ganslo drwy e-bost. Roedd y cwmni yswiriant wedi parhau i gymryd taliadau am y polisi. Pan gafodd wybod am y sefyllfa, fe unionodd hi ar unwaith.

PENDERFYNWYD - rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r gyrrwr am drosedd gyrru.

(4) Achos 4

Cafodd aelodau sylwadau gan yrrwr oedd wedi derbyn 6 phwynt cosb am yrru yn ddiotal.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi cyrraedd yn hwyr i godi grŵp o deithwyr. Roedd y teithwyr yn ddiamynedd ac yn feddw. Fe wnaeth un person yn y grŵp hefyd wrthod gwisgo mwgwd wyneb. Gofynnodd y grŵp i gael eu cludo i'r Depo yn Butetown ond roedd yr archeb ar gyfer gollwng yn Rhiwbeina. Gwrthododd y gyrrwr gymryd y daith ac awgrymodd eu bod yn archebu cerbyd arall. Yna aeth y teithwyr yn ddig felly cynigiodd y gyrrwr archebu'r cerbyd ar eu cyfer.

Disgrifiodd y gyrrwr y grŵp fel un wedi'i gynhyrfu ac amharchus. Mynnodd y grŵp ei fod yn eu cymryd ac yn gwrthod gadael iddo adael.

Wrth iddo yrru i ffwrdd roedd un teithiwr yn dal gafael ar ddrws y teithiwr. Stopiodd y gyrrwr a chwmpodd y cwsmer. Cafodd y gyrrwr ei wysio yn ddiweddarach i ymddangos yn y llys. Plediodd yn ddieuog ac aeth i'r llys.

Dywedodd y gyrrwr nad oedd erioed wedi cael unrhyw gŵyn na phroblemau gyda theithwyr eraill. Nad oedd yn ymwybodol bod gofyn iddo ddatgan y drosedd ar adeg y gollfarn.

PENDERFYNWYD - y dylid atal Trwydded Cerbyd Hacni / Hurio Preifat y gyrrwr am 14 diwrnod oherwydd y troseddau gyrru a pheidio â datgelu trosedd.

(5) Achos 5

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr a oedd wedi derbyn 9 pwynt cosb am droseddau goryrru. Eglurodd y gyrrwr amgylchiadau pob un o'r euogfarnau. Roedd y gyrrwr yn derbyn ei fod ar fai a bod angen iddo ddatgan y troseddau ar y pryd. Dywedodd y gyrrwr nad oedd teithwyr yn y cerbyd adeg y troseddau.

PENDERFYNWYD - Bod y gyrrwr i dderbyn rhybudd ysgrifenedig am droseddau gyrru.

(6) Achos 6

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan 2 Swyddog Gorfodi Trwyddedu. Dywedodd y swyddogion eu bod wedi gweld cerbyd hurio preifat yn cynnig i'w logi yng nghanol y ddinas, yn groes i amodau ei drwydded.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi mynd â ffrind i Heol Penarth. Yna aeth i Lôn y Felin i aros am daith. Roedd yn gwadu codi unrhyw deithwyr yno.

Dywedodd y Swyddogion Trwyddedu eu bod yn gweithio yn Lôn y Felin. Fe welson nhw fenyw yn dod at y cerbyd ac yn clywed sgwrs yn digwydd. Roedd y Swyddogion Trwyddedu o'r farn bod y cerbyd yn gofyn i'w logi ac nad oedd wedi'i archebu ymlaen llaw. Gwiriwyd manylion y cerbyd yn ddiweddarach. Cadarnhaodd y gweithredwyr hurio preifat nad oedd unrhyw archebion wedi'u gwneud ar gyfer y cerbyd hwnnw y diwrnod hwnnw. Cafodd y gyrrwr ei gyfweld dan rybudd wedi hynny.

Holodd aelodau'r Is-bwyllgor bob parti. Canfu'r Is-bwyllgor nifer o anghysondebau rhwng datganiad y gyrrwr dan rybudd a'r atebion yr oeddent yn cael eu rhoi yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – Atal trwydded cerbyd hacni/hurio preifat y gyrrwr am 28 diwrnod am geisio cael ei logi ac ymddygiad annerbyniol.

(7) Achos 7

Cafodd yr aelodau wybod bod gyrrwr wedi derbyn dedfryd o garchar am drosedd o gurfa. Ni ddatganwyd yr euogfarn ar y pryd ond fe'i datganwyd wedi hynny ar ôl adnewyddu'r drwydded. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau disgyblu.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan gynrychiolydd cyfreithiol y gyrrwr. Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol i'r aelodau yn arwain at yr euogfarn.

Cafodd yr aelodau wybod bod digwyddiad wedi digwydd yn 2019. Cafodd y gyrrwr ei wahanu oddi wrth ei wraig a'i blant

ac mae ei deulu sydd wedi ymddieithrio yn byw gryn bellter i ffwrdd. Cafodd y gyrrwr adroddiadau nad oedd ei fab yn mynychu'r ysgol ac roedd yn bryderus iawn.

Roedd dadl wedi digwydd rhwng y gyrrwr, ei gyn-wraig ac aelodau o'i theulu estynedig. Cafodd y gyrrwr ei arestio, ei gyhuddo a'i gael yn euog wedi hynny.

Dywedodd y cynrychiolydd cyfreithiol fod y gyrrwr yn difaru ei weithredoedd. Roedd yn gywilyddus ac nid oedd eisiau i unrhyw un wybod. Gwnaed honiad ffug hefyd fod y gyrrwr yn bwriadu dychwelyd ei ferch i Yemen a arweiniodd at osod 2 orchymyn cyfyngu arno.

Cafodd yr aelodau wybod nad oedd gan y gyrrwr unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'i rôl fel gyrrwr tacsî. Mae'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl agored i niwed ac yn canolbwyntio ar weithio y tu allan i ganol y ddinas. Roedd cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio ers ei euogfarn.

Derbyniodd y gyrrwr y dylai fod wedi hysbysu'r Cyngor yn gynharach. Cydnabuwyd mai'r flaenoriaeth i'r Aelodau yw diogelwch y cyhoedd ac awgrymwyd ei fod wedi dangos ei ddibynadwyedd.

PENDERFYNWYD - Y dylid tynnu'n ôl y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni /Hurio Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm.